




Adroddiad Blynyddol Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol Cwm Taf Morgannwg

2021-2022

1. Cyflwyniad	
2. Aelodaeth o Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod	
3. Strwythur Llywodraethu	
4. Nodau Strategol VAWDASV Cwm Taf Morgannwg	
5. Beth ydym ni wedi ei gyflawni? – Nod 1	
6. Beth ydym ni wedi ei gyflawni? – Nod 2	
7. Beth ydym ni wedi ei gyflawni? – Nod 3	
8. Beth ydym ni wedi ei gyflawni? – Nod 4	
9. Beth ydym ni wedi ei gyflawni? – Nod 5	
10. Cynllun Cyflawni VAWDASV CTM 2022-2023	
11. Atodiad A - Aelodaeth	
12. Atodiad B – Strwythur Llywodraethu	

Strategaeth Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf Morgannwg – Adroddiad Blynyddol 2021-2022

Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Partneriaeth Strategol a Chomisiynu Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg (CTM). Hwn yw'r pedwerydd adroddiad blynyddol a ddarparwyd gan ranbarthau Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr a'r ail fel rhanbarth cyfunol Cwm Taf Morgannwg.

Yn 2015, pasiodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) – VAWDASV

(1) Diben y Ddeddf hon yw gwella:

- a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- c) cymorth i bobl y mae trais ar sail rhyw, cam-drin domestig, a thrais rhywiol yn effeithio arnynt.

Nodai'r Ddeddf ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol (ynghyd ag awdurdodau perthnasol) ddatblygu Strategaeth VAWDASV leol ar y cyd a darparu adroddiad diweddar blynyddol yn erbyn y strategaeth hon. Yng Nghwm Taf Morgannwg mae'r cyfrifoldeb am ddatblygu a monitro'r strategaeth VAWDASV wedi cael ei ddirprwyo i Bartneriaeth Strategol a Chomisiynu VAWDASV Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg sy'n bartneriaeth o awdurdodau perthnasol a darparwyr gwasanaethau lleol.

Yn unol â'r Ddeddf, rhaid i strategaeth VAWDASV Cwm Taf Morgannwg wneud y canlynol:

- a) Pennu amcanion y mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried fydd, os cânt eu cyflawni, yn cyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf hon.
- b) Nodi'r cyfnodau amser y mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu cyflawni'r amcanion penodedig ynddynt.
- c) Nodi'r camau y mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion penodedig.
- d) Gall Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol bennu amcanion.

Er mwyn hwyluso monitro yng Nghwm Taf Morgannwg, mae'r amcanion, y camau gweithredu a'r amserlenni wedi cael eu hymgorffori mewn cynllun cyflawni yr adroddir arno bob chwarter. Mae unrhyw faterion neu risgiau a godir mewn perthynas â chyflawni'r cynllun yn cael eu huwchgyfeirio at Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf (PDC) a PDC Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer eu penderfyniad a/neu gamau gweithredu. Mae hyn yn galluogi'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gymryd

meddiant o VAWDASV ar lefel strategol a rhoi arweiniad i Bartneriaeth Strategol a Chomisiynu Ranbarthol VAWDASV ar gyflawni'r cynllun.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r gwaith y mae Partneriaeth Strategol a Chomisiynu Ranbarthol VAWDASV CTM wedi'i wneud yn ystod 2021/22 i geisio sicrhau bod pobl Cwm Taf Morgannwg yn ddiogel rhag yr holl niwed sy'n gysylltiedig â VAWDASV. Mae'r Bartneriaeth VAWDASV yn ymwybodol iawn mai dim ond trwy gydweithio cryf y gellir cyflawni hyn, gyda'r holl asiantaethau'n cydweithio'n rhagweithiol ac yn gynhyrchiol.

Yn wir, ni fyddai llawer o gyflawniadau CTM wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth y sefydliadau sydd wedi darparu cyllid ar gyfer llawer o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, yn enwedig Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru.

Mae aelodau Partneriaeth Strategol a Chomisiynu Ranbarthol VAWDASV yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu a gwella diogelu ymhellach mewn perthynas â VAWDASV yng Nghwm Taf Morgannwg ac yn cydnabod mai dim ond trwy gydweithio effeithiol rhwng Byrddau Strategol y gellir cyflawni hyn. Felly, bydd cydweithio ag asiantaethau partner, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn parhau i wella ymarfer a rhannu dysgu.

Bydd Partneriaeth Strategol a Chomisiynu Ranbarthol VAWDASV Cwm Taf Morgannwg hefyd yn ymdrechu i ymgysylltu'n fwy effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau, boed yn blant neu'n oedolion, a chynnig cyfleoedd iddynt gyd-gynhyrchu strategaethau, polisiau ac yn y blaen.

Er bod Pandemig Covid wedi parhau i greu heriau o ran darparu gwasanaethau, mae gwasanaethau VAWDASV yn CTM wedi cwrdd â'r heriau hynny ac wedi parhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel.

Aelodaeth o Bartneriaeth Strategol a Chomisiynu Ranbarthol VAWDASV

Gweler **Atodiad A**

Strwythurau Llywodraethu

Yn 20-21 daeth partneriaeth strategol VAWDASV Cwm Taf yn grŵp partneriaeth Cwm Taf Morgannwg. Fodd bynnag, mae gweddill y strwythur llywodraethu wedi'i drefnu o amgylch rhanbarthau Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf. Arhosodd y sefyllfa hon heb newid yn 21-22, ac o ganlyniad mae'r grŵp VAWDASV yn adrodd i ddwy Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Gweler **Atodiad B**.

Nodau Strategol VAWDASV Cwm Taf Morgannwg

Roedd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid perthnasol ddatblygu strategaeth VAWDASV leol. Cydymffurfiodd Partneriaeth Strategol a Chomisiynu VAWDASV Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg â'r gofyniad hwn a datblygodd ei nodau i fod yn gyson â Strategaeth Genedlaethol VAWDASV ac i gwrdd ag anghenion lleol.

Yn ystod 2021-2022, roedd nodau Cwm Taf Morgannwg fel a ganlyn:

Nod 1: Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cwm Taf Morgannwg.

Nod 2: Torri'r cylch o ymddygiad VAWDASV o genhedlaeth i genhedlaeth mewn teuluoedd drwy hybu perthnasoedd iach mewn plant a phobl ifanc.

Nod 3: Dal troseddwyd i gyfrif am eu gweithredoedd a'u cynorthwyo i newid eu hymddygiad.

Nod 4: Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u comisiynu i gwrdd ag anghenion poblogaeth Cwm Taf Morgannwg.

Nod 5: Sicrhau bod gwasanaethau'n addas i'w diben a bod eu hansawdd wedi cael ei sicrhau.

Beth ydym ni wedi ei gyflawni? – Nod 1

Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cwm Taf Morgannwg.

Er bod cyfyngiadau Covid yng Nghymru yn llai cyfyngol yn 21-22 nag yn 20-21, nid oedd gwasanaethau yn gweithredu yn yr un modd ag yr oeddent cyn y pandemig o bell ffordd. Felly, mae cyfathrebu â'r cyhoedd wedi parhau i fod yn weithgaredd blaenoriaeth uchel. Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi chwarae rhan hanfodol yn galluogi darparwyr gwasanaethau i hysbysu'r cyhoedd a dioddefwyr VAWDASV bod gwasanaethau'n dal i weithredu a sut y gellir cael gafael arnynt. Er mwyn hybu'r cyfathrebu a'r codi ymwybyddiaeth hwn, mae rhanbarth Cwm Taf Morgannwg wedi hyrwyddo ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru, sef 'Ni ddylai cartref fod yn lle o ofn' a 'Galwad Allan yn unig'.

Yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg mae Partneriaeth Strategol a Chomisiynu Ranbarthol VAWDASV a Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg (CTM) yn mwynhau trefniadau cydweithio agos. Mae hyn wedi galluogi partneriaeth VAWDASV i gyrraedd cynulleidfda darged ehangach ar gyfer negeseuon ymgyrchu. Cyflawnwyd hyn trwy ddefnyddio gwefan y Bwrdd Diogelu, cyfrif Facebook a bwletinau newyddion.

Fel bob amser, cymerodd darparwyr gwasanaethau VAWDASV ran yn yr wythnos Ddiogelu. Yn 21-22 thema gyffredinol wythnos Ddiogelu CTM oedd Diogelu ein cymunedau ac felly cyflwynodd sefydliadau VAWDASV sesiynau yn gysylltiedig â'r thema honno.

Rhai o'r gweithgareddau a ddarparwyd oedd

- sesiynau rheoli gorfodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol
- sesiynau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ymyrraeth deuluol
- sesiynau ar sut i ddelio â datgeliadau o drais rhywiol (llwybrau newydd)
- ail-lansio ymgyrch Gofynnwch i Angela

Yn 2021-2022 rhoddodd Llywodraeth Cymru grant i ddarparwyr gwasanaethau VAWDASV y rhanbarth i godi ymwybyddiaeth o VAWDASV ymhlith y diwydiant harddwch. Daeth 6 darparwr lleol ynghyd i ddatblygu a chyflwyno'r ymgyrch 'Snip it in the bud' Gwelwch y ddogfen isod sy'n amlinellu amserlen y prosiect, pa ddeunyddiau a ddatblygwyd, sut y cawsant eu cyflawni a pha ganlyniadau a sicrhawyd.



Cwm%20Taf%20Morgannwg%20Comm

Bu rhanbarth Cwm Taf Morgannwg hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth cenedlaethol megis Diwrnod y Rhuban Gwyn a'r 16 diwrnod o weithredu. Gan ei bod yn dal yn anodd i ddod â gormod o unigolion ynghyd, cytunodd sefydliadau lleol i gyfrannu at amserlen gweithgarwch Cwm Taf Morgannwg. Y ddogfen isod yw amserlen yr hyn a ddarparwyd, a'r canlyniadau a gyflawnwyd.



Cwm%20Taf%20Morgannwg%20White%

Cynhaliodd Llwybrau Newydd ddigwyddiad 'Ffocws Rheng Flaen' llwyddiannus ar Drais Rhywiol yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Trais Rhywiol. Roedd y galw am y digwyddiad ymhell y tu hwnt i'r disgwyl ac roedd 723 o weithwyr rheng flaen o bob rhan o Gymru yn bresennol. Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol ac roedd yn amlwg bod awydd am wybodaeth benodol am drais rhywiol unigol.

Gan fod y Gwasanaeth Assia wedi ailstrwythuro ei ddarpariaethau, dyluniodd bosteri a thafenni newydd i wneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael. Hyrwyddwyd y gwasanaeth ymhellach drwy ymweld â busnesau lleol ar garreg eu drws a darparu stondinau gwybodaeth mewn cymunedau lleol.

Y prif gyfrwng ar gyfer codi ymwybyddiaeth o VAWDASV ymhlith gweithwyr proffesiynol yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg fu trwy gyflwyno Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol VAWDASV (NTF).

Ers cychwyn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol mae **20,253** o staff o Awdurdodau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr, Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cwblhau hyfforddiant grŵp1. Mae'r ffigurau hyn wedi cael eu haddasu eleni i gyfrif am staff sydd wedi cael eu hyfforddi ac sy'n dal i gael eu cyflogi gan y sefydliad yn unig.

Nid oes ffigurau ar gael yn lleol ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru na Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan eu bod yn adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn amlinellu cynnydd Cwm Taf Morgannwg o ran NTF VAWDASV yn 2021-2022

Grŵp	Niferoedd a gwblhaodd
1	1457(data ALL yn unig)
2	234
3	33
4	25 (bu 93 o staff arbenigol hefyd yn bresennol mewn hyfforddiant arbenigol ychwanegol)
5	7

Dylid nodi mai ar-lein y darparwyd yr holl hyfforddiant a ddarparwyd yn lleol mewn perthynas â'r NTF yn ystod y cyfnod hwn.

Mae cynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymhlith gweithwyr proffesiynol a gyflogir ym maes gofal iechyd sylfaenol yn rhan o'r prosiect 'Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch' (IRIS). Cafodd y gwasanaeth ei ddarparu yng Nghwm Taf ers blynyddoedd lawer ond, i Ben-y-bont ar Ogwr, 2021-22 yw'r flwyddyn lawn gyntaf o ddarparu. Cyflwynir IRIS fel darpariaeth gydweithredol rhwng dau ddarparwr arbenigol. Mae Merthyr Tudful Fwy Diogel yn darparu ym Merthyr Tudful, Cynon, a Phen-y-bont ar Ogwr tra mae Gwasanaethau Cam-drin Domestig RhCT yn darparu yn ardaloedd Rhondda a Thaf.

Gan weithio'n agos gyda gofal sylfaenol, mae prosiect IRIS yn anelu at gynyddu adnabyddiaeth o ddioddefwyr a chyflawnwyr camdriniaeth a gwella'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn. Comisiynir y gwasanaeth hwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac mae'n darparu hyfforddiant a chymorth i glinigwyr a staff gweinyddol yn y 54 o bractisau meddygon teulu ledled Cwm Taf Morgannwg.

Mae pob practis yn derbyn sesiynau hyfforddi arbenigol ar gyfer meddygon teulu a staff clinigol a sesiynau ar wahân wedi'u hanelu at staff rheng flaen, staff derbynfa a gweinyddwyr. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ar sut i adnabod cam-drin domestig trwy ymholiad clinigol a sut i ymateb o ran asesu risg uniongyrchol, atgyfeirio, cofnodi a chyfrinachedd.

Unwaith y bydd pob practis wedi derbyn yr hyfforddiant llawn, maent yn dod yn bractis sy'n ymwybodol o gam-drin domestig. Mae hyn yn cael ei gydnabod a'i hyrwyddo i gleifion drwy arddangos posteri a chardiau gwybodaeth, sy'n nodi eu bod yn ymwybodol o gam-drin domestig. Mae practisau hefyd yn derbyn ffurflenni atgyfeirio a gwybodaeth am lwybrau gofal ar gyfer goroeswyr benywaidd, goroeswyr gwrywaidd, a chyflawnwyr.

Yn ystod 2021-22 mae IRIS wedi cyflawni'r canlynol:

- **100%** o bractisau ym Merthyr Tudful a RhCT wedi eu dynodi yn bractisau ymwybodol o IRIS (cwblhawyd y 3 sesiwn hyfforddi i gyd)
- Mae **95%** o bractisau ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi dilyn hyfforddiant IRIS ym mlwyddyn gyntaf y ddarpariaeth
- **218** o glinigwyr wedi cael eu hyfforddi
- **102** o staff derbynfa a gweinyddol wedi cael eu hyfforddi
- Adroddai **95%** o feddygon teulu a chlinigwyr am ddealltwriaeth gynyddol o gymhlethdodau Trais a Cham-drin Domestig (DVA) a'u bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio ymholiad wedi'i dargedu i nodi DVA.

Llwybrau Newydd yw darparwr allweddol hyfforddiant ar drais rhywiol a phynciau cysylltiedig yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Yn ystod 21-22, darparwyd eu holl gyrsiau ar-lein a'u cyflwyno ar draws De Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn darparwyd **171** o gyrsiau i **1997** o bobl. Roedd rhai o'r cyrsiau oedd ar gael yng Nghwm Taf Morgannwg yn cynnwys y canlynol.

Trawma Dirprwyol - cynorthwyo staff a gwirfoddolwyr i adnabod ac ymateb i ganlyniadau personol cefnogi pobl sydd wedi profi trawma. Roedd hyn yn cynnwys helpu pobl i adnabod arwyddion trawma dirprwyol, nodi eu ffactorau amddiffynnol eu hunain, a datblygu strategaethau ar gyfer eu hamddiffyn eu hunain.

Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad - helpu staff a gwirfoddolwyr i adnabod yr arwyddion y gallai rhywun fod yn meddwl am hunanladdiad; teimlo'n fwy cyfforddus yn archwilio hyn; dysgu sut i ddatblygu cynlluniau diogelwch a phryd i gychwyn ymateb brys.

Trais Rhywiol - hwyluso staff a gwirfoddolwyr i adnabod cwmpas trais rhywiol, ei effaith ar bobl, ymatebion cyffredin a strategaethau ymdopi a'r ystod o wasanaethau cymorth ac eiriol sydd ar gael.

Therapi Cyn-treial – cynorthwyo staff a gwirfoddolwyr i ddeall y gofynion ar gyfer therapi cyn-treial

Beth ydym ni wedi ei gyflawni? - Nod 2

Torri'r cylch o ymddygiad VAWDASV o genhedlaeth i genhedlaeth mewn teuluoedd drwy hybu perthnasoedd iach mewn plant a phobl ifanc.

Un o'r ffyrdd o hybu perthnasoedd iach mewn pobl ifanc yw drwy'r Dull Addysg Gyfan. Yn 2021-22 roedd y ffocws mewn ysgolion ar gyflawni dwy o elfennau allweddol y Dull Addysg Gyfan.

1. Plant a phobl ifanc yn dysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol.
2. Staff yn dysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol.

Dechreuwyd y gwaith hwn yn 2019-20. Fodd bynnag, oherwydd bod Covid wedi tarfu dros y 2 flynedd diwethaf, nid yw'r gweithgaredd wedi symud ymlaen mor bell ag y rhagwelwyd, felly mae'r cam gweithredu wedi treiglo drosodd i 2021-22.

Elfen allweddol 1

Er mwyn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu am VAWDASV, mae Tîm VAWDASV Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Hafan Cymru i gyflwyno'r rhaglen Sbectrwm ar draws ysgolion. Yng Nghwm Taf Morgannwg hon yw un o'r prif gyfryngau darparu.

Mae holl sesiynau Sbectrwm:

- Yn hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd iach a chodi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o faterion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Yn cael eu cyflwyno gan athrawon cymwys a phrofiadol. Gellir cyflwyno sesiynau yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae'r holl adnoddau'n ddwyieithog.
- Yn drawsgwricwlaidd ac wedi eu cynllunio i hybu trafodaeth rhwng cyfoedion, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau.
- Yn defnyddio deunyddiau sy'n ysgogi'r meddwl ond nad ydynt wedi'u dylunio i fod mor emosiynol fel eu bod yn achosi trallod, gan gynnwys y cysyniad o "Y Parth Diogelwch".
- Wedi cael eu cynllunio i hyrwyddo trafodaeth nid datgelu.
- Yn gorffen gyda gwybodaeth i bobl ifanc am ble y gallant gael cymorth a chefnogaeth y tu fewn a thu allan i'r ysgol.

Yn ystod 2021-2022 cyflwynodd Hafan Cymru y sesiynau canlynol yn ysgolion Cwm Taf Morgannwg:

Merthyr

- Cyfanswm nifer y sesiynau = 84
- Cyfanswm y disgyblion mewn sesiynau = 772
- Cyfanswm nifer y staff mewn sesiynau disgyblion = 92

Rhondda Cynon Taf

- Cyfanswm y sesiynau = 186
- Cyfanswm y disgyblion mewn sesiynau = 2147
- Cyfanswm nifer y staff mewn sesiynau disgyblion = 204

Pen-y-bont

- Cyfanswm nifer y sesiynau = 29
- Cyfanswm y disgyblion mewn sesiynau = 283
- Cyfanswm nifer y staff mewn sesiynau disgyblion = 19

Gan nad oes gan Hafan Cymru y gallu i gyflwyno i bob dosbarth a grŵp blwyddyn mae llawer o ysgolion hefyd yn comisiynu gwasanaethau VAWDASV lleol i ddarparu agweddau ar berthnasodd iach.

Yn ardal Merthyr o ranbarth CTM, mae Merthyr Tudful Mwy Diogel (MTMD) wedi'i gcontractio gan yr Awdurdod Lleol i gyflwyno sesiynau perthnasodd iach mewn ysgolion cyfun a chlybiau ieuenctid.

Yn ystod Ch1 21-22 ni chynhaliwyd grŵp oherwydd cyfyngiadau Covid.

Yn Ch2-Ch4 cyflwynodd SMT

Nifer yr unigolion y gweithiwyd gyda hwy	131
Nifer o sesiynau grŵp	21 11 mewn ysgolion 10 mewn clybiau ieuenctid

Er nad yw sefydliadau wedi gallu mynd i ysgolion mor rhydd ag y gallent cyn covid, maent wedi dal i weithio o hyd tuag at yr amcan o hybu perthnasodd iach mewn plant a phobl ifanc. I'r perwyl hwn, cyflwynodd Llamau sesiynau Perthynas Iach ar draws CTM gydag **801** yn bresennol. Yn ogystal, mynychodd **60** o bobl ifanc sesiynau secstio, cydsynio, ac ymwybyddiaeth o orfodaeth. Cyflwynwyd y sesiynau hyn ar-lein ac yn bersonol lle roedd modd.

Mae Llamau hefyd wedi cyflwyno eu rhaglen ADAPT. Adapt yw cwrs 6 wythnos pwrpasol Llamau ar gyfer pobl ifanc 12-17 oed. Mae Adapt yn cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol

- Cyfeillgarwch iach.
- Perthnasoedd iach ac afiach.
- Arwyddion rhybudd o gamdriniaeth.
- Diogelwch ar-lein, meithrin perthynas amhriodol a chamfanteisio

Yn 21-22

Mynychodd **64** o bobl ifanc y grwpiau Adapt

Roedd **14** o bobl ifanc wedi elwa ar gymorth 1:1 gyda'r gweithiwr arbenigol ynghylch eu perthnasoedd eu hunain.

Mae'r rhaglen Comets & Rockets a ddarperir gan Ferthyr Tudful Mwy Diogel (MTMD) ar draws y rhanbarth, yn mabwysiadu agwedd ychydig yn wahanol at dorri'r cylch o gam-drin domestig o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo pobl ifanc 3-16 oed sydd wedi profi/gweld cam-drin domestig, drwy raglenni grŵp a therapi chwarae, tra ar yr un pryd yn cefnogi rhieni trwy raglenni grŵp. Pwrpas y gwaith gyda'r rhieni yw cynyddu dealltwriaeth o effeithiau cam-drin domestig ar eu plant. Mae rhieni hefyd yn cael eu haddysgu sut i wneud gweithgareddau therapiwtig gyda'u plentyn er mwyn ailadeiladu perthnasoedd a chynyddu ymlyniad.

Yn 2021-2022 cyflawnodd Comets and Rockets y canlynol.

- Sesiynau grŵp 1-1 wedi eu cyflwyno gyda 69 o blant yng Nghwm Taf. 6 X Grŵp 6 wythnos Comets and Rockets yn cael eu darparu ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- 3 rhaglen grŵp rhieni 8 wythnos wedi eu cyflwyno ar draws Cwm Taf Morgannwg gyda 18 rhiant/gofalwr
- Derbyniodd 13 o deuluoedd sesiynau grŵp Calon wrth Galon 6 wythnos ar sail 1-1 oherwydd cyfyngiadau Covid-19.
- Derbyniodd 37 o blant sesiwn therapi chwarae un i un

Nid yw gwasanaeth Assia yn gweithio'n uniongyrchol gyda PPI. Fodd bynnag, i hybu'r nod hwn ymhellach, mae'r gwasanaeth wedi cynnal rhaglen lawn o hyfforddiant cam-drin domestig gyda staff yn unedau rhieni a babanod Partneriaethau er mwyn Cynydd, ac i Fydwagedd yn Ysbyty Tywysoges Cymru.

Elfen allweddol 2

Yn y blynyddoedd o'r blaen, uchelgais partneriaeth strategol VAWDASV oedd cynyddu nifer y staff addysg oedd yn manteisio ar e-ddysgu grŵp1 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (NTF). Mae'r uchelgais hwn wedi cael ei gyflawni'n rhannol; fodd bynnag, mae'n anodd gweld yr union gynnydd gan fod yr awdurdodau lleol yn cyflwyno ffigurau e-ddysgu ar gyfer y sefydliad cyfan yn hytrach nag adrannau penodol.

Fodd bynnag, er mwyn cynyddu cydymffurfiaeth mae CBSRhCT wedi llunio rhestr o staff addysg nad ydynt wedi cwblhau e-ddysgu grŵp 1. Dosbarthwyd y rhestr i wahanol wasanaethau addysg i'w dilyn a'i chwblhau. Bwriedir ailadrodd y cam hwn yn rheolaidd.

Yn 2021-22, cynhyrchodd CBSRhCT ganllaw i ysgolion hefyd i gefnogi agenda VAWDASV, yn cynnwys gwybodaeth am ofynion hyfforddiant ac argymhellion Estyn o adroddiad ar gam-drin rhywiol rhwng cymheiriaid, “Nid ydym yn dweud wrth ein hathrawon”. Gwelwch y ddogfen sydd wedi'i hymgorffori isod. Rhannwyd y ddogfen hon gydag ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful i geisio creu cysondeb ar draws y rhanbarth ac i feithrin rhannu arfer da.



rct whole
education.pdf

Beth ydym ni wedi ei gyflawni? – Nod 3

Dal cyflawnwyr i gyfrif am eu gweithredoedd a'u cynorthwyo i newid eu hymddygiad.

Yng Nghwm Taf Morgannwg mae darpariaethau ar gyfer y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig. Mae prosiect DRIVE yn gweithio ar draws y rhanbarth gyda chyflawnwyr y mae eu dioddefwyr wedi cael eu hystyried yn risg uchel. Mae DRIVE yn targedu'r rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig er mwyn gwella canlyniadau i ddioddefwyr a phlant.

Yr amcanion allweddol yw:

- Lleihau nifer cyflawnwyr mynych cam-drin domestig.
- Lleihau nifer y dioddefwyr mynych a newydd.
- Lleihau'r niwed a achosir i ddioddefwyr a phlant.
- ymyrryd yn gynharach i ddiogelu teuluoedd sy'n byw gyda cham-drin domestig niwed uchel.

Mae gwasanaeth DRIVE yn argymhell dull aml-fodel sy'n cydblethu cymorth ac ymyriadau tarfu ar gyfer y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig. Felly, mae DRIVE yn cynnig

- Cynorthwyo cyflawnwyr i newid eu hymddygiad

Neu

- Tarfu ar gyfleoedd i'r sawl sy'n cyflawni camdriniaeth.

Mae gweithio gyda chyflawnwyr camdriniaeth ddomestig bob amser yn heriol ond mae'n arbennig o anodd wrth weithio o fewn cyfyngiadau Covid gan fod yn rhaid i weithwyr cymorth fod yn ymwybodol bob amser o'r risgiau i ddioddefwyr a phlant cyflawnwyr. Dyma'r rheswm pam mae pob ymyriad a gynigir gan DRIVE i gyflawnwyr cam-drin domestig yn cael ei ategu gan gymorth gan wasanaeth IDVA (Cyngorwr Cam-drin Domestig Annibynnol). Pwrpas cefnogaeth IDVA yw sicrhau nad yw ymyrraeth y cyflawnwr yn peryglu diogelwch y rhai sydd mewn perygl a bod y dioddefwyr yn cael eu cynorthwyo i sefydlu bywydau sy'n rhydd rhag camdriniaeth.

Yn 2021 2022 mae'r data allweddol ar gyfer DRIVE fel a ganlyn: -

Achosion a dderbyniwyd – 138, - 134 gwryw, 4 benyw

Llwybr cyfeirio – 138 MARAC

Oddeutu 60% ymgysylltu = oddeutu 83 o unigolion

Dioddefwyr gafodd eu diogelu – 163

Diogelu Plant a Phobl Ifanc - 296

D.S. mae mwy o ddioddefwyr na chyflawnwyr. Mae hyn oherwydd bod DRIVE yn aml yn datgelu dioddefwyr cudd yn ystod eu hymyriadau.

I gefnogi gwaith gwasanaethau troseddwyd a dioddefwyr, mae rhanbarth Cwm Taf yn darparu'r Rhaglen Deulu a ariennir gan y PCCO (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau). Mae'r Rhaglen Deulu yn darparu cymorth arbenigol i deuluoedd sy'n profi cam-drin domestig sy'n dymuno aros gyda'i gilydd yn ddiogel neu gael cymorth i wahanu'n gyfeillgar a chyd-rianta'n gadarnhaol.

Nod y gwasanaeth yw

- Dod â'r teulu cyfan yn nes at ei gilydd
- Cryfhau a gwella diogelwch teuluol, lles, a pherthnasoedd cadarnhaol
- Sicrhau bod y teulu'n cael ei weld drwy lygaid y plentyn/person ifanc gyda'i les ef/hi yn hollbwysig
- Sicrhau bod y cyfrifoldeb am gam-drin yn gorffwys ar y rhiant sy'n cam-drin
- Sicrhau bod diogelwch a risg bob amser yn aros yn ganolog i'r model.

Mae'r gwasanaeth yn darparu ystod o ymyriadau therapiwtig a gweithgareddau sy'n canolbwyntio arnynt

- Diogelwch.
- Rheoli risg.
- Newid ymddygiad.
- Effaith cam-drin domestig ar blant.
- ACE.
- Cyfathrebu parchus.
- Ymlyniad
- Gwydnwch emosiynol

Data allweddol ar gyfer 2021-22

- Cyfeiriwyd 46 o deuluoedd
- Cefnogwyd 58 o deuluoedd (gan gynnwys teuluoedd oedd yn dal ar agor o 20-21)
- Elwodd 53 o deuluoedd o'r gwasanaeth
- Cafodd 27 o deuluoedd gymorth parhaus
- Cafodd 4 PPI gymorth uniongyrchol
- Mynychodd 10 teulu sesiynau cam 2
- Mynychodd 4 teulu sesiynau ymestyn Cam 2
- Atgyfeiriodd 2 deulu eu hunain i gael cymorth ychwanegol yn dilyn cau achos.

O ganlyniad i'r rhaglen nodir 53 o deuluoedd fel buddiolwyr yn erbyn y canlyniadau canlynol:

- Gwell Iechyd a Lles
- Mwy o deimladau o ddiogelwch
- Gallu Ymdopi'n Well ag Agweddau ar Fywyd Bob Dydd
- Mwy Gwybodys a Galluog i Weithredu

Enillodd y Rhaglen Deulu Achrediad Respect ym mis Awst 2021.

Yn 20-21 nodwyd bod angen Rhaglen Cyflawnwyr Cam-drin Domestig (DAPP) yn rhanbarth CTM sy'n gyson ar draws y rhanbarth. Y sefyllfa oedd mai dim ond ardal RhCT oedd yn darparu DAPP; roedd un Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael ei digomisiynu ac nid oedd gan Ferthyr unrhyw ddarpariaeth. O ganlyniad, yn 21-22 cynullwyd tasglu i benderfynu beth oedd ei angen ac i sicrhau'r cyllid angenrheidiol (gweler nod 4 am fanylion pellach).

O ran trais rhywiol, gweithiodd gwasanaethau Llwybrau Newydd, SARC (Canolfan Gyfeirio am Ymosodiad Rhywiol) ac ISVA (Cyngorwr Trais Rhywiol Annibynnol) gyda 386 o bobl (291 o oedolion a 95 o blant) o ranbarth CTM, cynnydd o 37% ar 20-21. Mae'r eiriolaeth a'r cymorth arbenigol hwn yn galluogi dioddefwyr i gael y dystiolaeth orau, gwneud penderfyniadau gwybodys am eu dewisiadau yn y system gyfiawnder troseddol a chael eu cefnogi i barhau i ymgysylltu â'r broses gyfiawnder troseddol. Mae gwasanaethau SARC ac ISVA, drwy weithio'n agos gyda'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn sicrhau bod cyflawnwyr yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd.

Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn ymwneud yn weithredol â sicrhau bod dioddefwyr yn ardaloedd Cwm Taf yn ymwybodol o'r cyfle a roddir gan Adran 28 i recordio tystiolaeth ymlaen llaw yn Llys y Goron.

Yn ogystal, mae Llwybrau Newydd yn cynnig therapi cyn-treial sy'n cefnogi dioddefwyr i reoli ac ymdopi ag effeithiau trawma, sy'n hollbwysig yn ystod y cyfnodau hir y mae dioddefwyr yn aml yn disgwyl i gyrraedd y llys.

Tua diwedd 2020-21, rhoddodd tîm VAWDASV Llywodraeth Cymru grant cyfalaf i bob rhanbarth o Gymru er mwyn sefydlu a gosod cyfarpar mewn canolfannau tystiolaeth o bell ar gyfer dioddefwyr VAWDASV. Mae canolfannau tystiolaeth o bell yn ddewis arall yn lle mynd i'r llys ac yn galluogi dioddefwyr VAWDASV i ddarparu tystiolaeth yn y treial, drwy gyswllt fideo byw â'r llys. Y bwriad yw y bydd darparu tystiolaeth yn y modd hwn yn arwain at fwy o erlyniadau gan fod dioddefwyr yn llai tebygol o gael eu dychryn gan y broses a'r amgylchedd.

Yn CTM mae'r grant wedi hwyluso sefydlu 4 canolfan dystiolaeth o bell yn Rhondda, Aberdâr, Merthyr Tudful a Maesteg.

Yn gynharach yn y flwyddyn roedd pob safle ledled Cymru yn canolbwyntio ar ddatblygu protocolau a gweithdrefnau cyson, prosesau archebu, sefydlu llwybrau rhyngasiantaethol, offer cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o'r safleoedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi ei gwblhau ond mae nifer o dasgluoedd sy'n cyfarfod i oruchwyllo'r gweithredu a phroblemau sy'n codi ar y safleoedd.

Yn CTM defnyddiwyd y safleoedd am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2021. Ers y defnydd cyntaf bu cynnydd araf a chyson yn yr achosion sy'n cael eu clywed mewn canolfannau tystiolaeth o bell a elwir bellach yn safleoedd cyswllt fideo diogel.

Rhwng Tachwedd 2021 a Mawrth 22 roedd safleoedd CTM wedi cael eu defnyddio ar 9 achlysur gyda 9 dyfarniad euog cysylltiedig, sy'n edrych yn addawol ar gyfer canlyniadau yn y dyfodol.

Beth ydym ni wedi ei gyflawni? - Nod 4

Sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u comisiynu i gwrdd ag anghenion poblogaeth Cwm Taf Morgannwg.

Drwy gydol 21-22 mae Partneriaeth Strategol VAWDASV CTM wedi gweithio ar ei hamcan strategol i greu gwasanaethau cyson ac effeithiol ar draws ardaloedd daearyddol y rhanbarth.

Er na fu'n bosibl caffael yr holl wasanaethau'n rhanbarthol oherwydd dehongliad gwahanol yr awdurdodau lleol o weithdrefnau caffael ac amserlenni contractau, sicrhawyd mwy o gysondeb er hynny o ran darparu gwasanaethau. Cafwyd y cysondeb hwn drwy ddefnyddio dulliau heblaw caffael megis mabwysiadu proffiliau rôl a manylebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Mae gwobrau achredu yn helpu gwasanaethau i gyrraedd yr un safonau ansawdd.

Fodd bynnag, wrth ystyried comisiynu gwasanaethau newydd, dull rhanbarthol yw'r dewis cyntaf bob tro.

O ganlyniad i weithio fel hyn ers nifer o flynyddoedd, mae gan yr holl ranbarthau sy'n rhan o Gwm Taf Morgannwg y darpariaethau a ganlyn, y mae llawer ohonynt wedi cael eu comisiynu ar draws y rhanbarth cyfan.

- Darpariaeth lloches
- Llety gwasgaredig.
- Darpariaeth IDVA
- Darpariaeth IDVA Plant
- Cymorth tenantiaeth/gwaith allgymorth
- Rhaglenni adfer
- Gwasanaethau PPI
- DRIVE
- IRIS
- Gwasanaeth BAME
- Darpariaeth ISVA
- Mynediad i SARC

Yn 2020-21, drwy ddadansoddiad o fylchau a thystiolaeth o angen, nodwyd bod angen DAPP rhanbarthol. Ar adeg nodi hyn, yr unig ddarpariaeth oedd ar gael yn CTM, i gyflawnwyr cam-drin domestig oedd y prosiect DRIVE. Gan mai dim ond gyda'r rhai hynny sy'n wynebu risg uchel y mae DRIVE yn gweithio, nid oedd cyfleoedd ar gyfer ymyriadau cynharach, na gwasanaethau camu-i-lawr i'r rhai a gwblhaodd ymyriadau DRIVE i symud ymlaen iddynt. O ganlyniad, yn 2021 sefydlwyd grŵp gorchwyl i gomisiynu DAPP rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn bellach wedi cael ei gwblhau ac mae'r SMT wedi cael eu comisiynu i gyflawni eu Rhaglen Sbarduno Newid.

Prif ddiben y Rhaglen Sbarduno Newid yw cefnogi a chynnal diogelwch a lles merched a phlant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, neu'n debygol o effeithio arnynt.

Wrth gyflawni Sbarduno Newid, mae angen cyflawni'r amcanion canlynol

- Dal y rhai sy'n cyflawni trais a cham-drin domestig i gyfrif am eu hymddygiad.
- Cynorthwyo unigolion i atal camdriniaeth
- Cynorthwyo unigolion i ddatblygu agweddau a pherthnasoedd o barch

Sicrhawyd cyllid o nifer o ffynonellau i gyflawni'r rhaglen hon, fydd yn cychwyn yn 2022-23.

Yn ystod y flwyddyn hon mae rhanbarth CTM wedi gweithio ochr yn ochr â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCCO) a rhanbarthau eraill De Cymru i gynyddu maint y ddarpariaeth IDVA/ISVA, yn ogystal â datblygu ymagwedd fwy cyson at ddarpariaeth IDVA. O ganlyniad i'r gwaith hwn, sicrhodd rhanbarth CTM gyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder tan 2025 i ddarparu 3 IDVA Plant, un ym mhob rhanbarth o CTM.

Mae hwn yn ddull newydd ac arloesol o ymdrin â ffyrdd IDVA a CYP o weithio ac mae'n golygu bod gan blant o deuluoedd a drafodwyd yn MARAC eu Heiriolwr eu hunain sy'n mynegi barn ac anghenion PPI.

Ni ddechreuodd y gwasanaeth IDVA Plant tan Ch3, ond er gwaethaf y dechrau hwyr hwn cefnogodd yr IDVA 74 o blant a phobl ifanc risg uchel drwy raglenni gwaith unigol a gwaith grŵp.

Arweiniodd y cydweithrediad â'r PCCO hefyd at sefydlu swydd IDVA lechyd newydd yn y rhanbarth, sy'n gweithio yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg 5 diwrnod yr wythnos. Mae'r swydd hon wedi cael ei hariannu tan 2025 ac felly mae grŵp llywio VAWDASV CTM yn ystyried hwn yn brosiect peilot, gyda'r bwriad o edrych i mewn i gynigion ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth hon ar draws ysbytai Tywysog Charles a Thywysoges Cymru. Gan mai dim ond ym mis Chwefror 2022 y penodwyd unigolyn i'r swydd, ychydig o ddata sydd i'w adrodd. Fodd bynnag, yn y cyfnod byr o fod yn ei swydd mae'r IDVA iechyd wedi darparu cymorth i 5 o unigolion a nodwyd yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys gyda chyfanswm o 12 defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu cefnogi.

Yn 2021-22, cefnogwyd anghenion plant a phobl ifanc (PPI) a oedd yn ceisio cymorth oherwydd trais rhywiol yng Nghwm Taf gan ISVA CYP arbenigol ychwanegol ar gyfer Cwm Taf a Gweithiwr Cymorth Trais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer De Cymru. Cafodd anghenion penodol dynion gymorth gan ISVA (Cynghorwr Trais Rhywiol

Annibynnol) gwrywaidd ychwanegol ar gyfer De Cymru. Rhan o rôl yr ISVA gwrywaidd yw helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i ddynion y mae Trais Rhywiol wedi effeithio arnynt. O ganlyniad, cyfarfu'r IDVA â staff yng Ngharchar y Parc. Bydd y gwaith yn cydnabod yr anawsterau y mae dynion yn eu hwynebu wrth ddatgelu ac yn codi ymwybyddiaeth bod cymorth ar gael hyd yn oed yn y ddalfa.

O ganlyniad i ragor o gydweithio, mae ardal RhCT wedi penodi IDVA Tai yn Gyntaf. Caiff y swydd hon ei hariannu drwy Grant Cymorth Tai CBSRhCT i gwrdd ag anghenion dioddefwyr Cam-drin Domestig ym mhrosiect Tai yn Gyntaf y Cyngor yn ogystal â'r rhai sy'n ddigartref neu mewn llety dros dro. Gan fod y swydd hon yn unigryw yn y rhanbarth, bydd Grŵp Llywio VAWDASV yn ystyried beth yw'r manteision o fabwysiadu'r dull hwn.

Drwy gydol y flwyddyn, er gwaethaf problemau covid, a rhwystrau i ddarparu gwasanaethau, mae darparwyr lleol wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i dioddefwyr, cyflawnwyr a theuluoedd sy'n profi VAWDASV.

Isod ceir detholiad o ddata a gwybodaeth gan wasanaethau VAWDASV yng Nghwm Taf Morgannwg.

Darpariaeth lloches. Yn 2021-2022 fe wnaeth y tair lloches roi cartref i'r canlynol

Rhondda Cynon Taf = 154

Merthyr = 26 o ferched a 13 o blant = 39

Pen-y-bont ar Ogwr = 57 o ferched a 44 o blant = 101

O ganlyniad i gyllid VAWDASV ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae darparwyr llochesi ar draws y rhanbarth wedi gallu cyflogi gweithwyr cymorth lloches plant a phobl ifanc rhan amser. Mae hyn wedi golygu tra mae plant wedi bod mewn lloches eu bod wedi gallu cael cymorth 1:1, gwaith grŵp yn y lloches a'r cyfle i fwynhau gweithgareddau chwarae sy'n caniatáu iddynt fod yn blant.

Y data yn y 2 dabl nesaf yw cyfanswm gwaith y Gwasanaeth Assia, DART, a Chanolfannau Oasis (Gwasanaethau IDVA Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel a chanolig.

Pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn uniongyrchol - DS Dim ond gyda risg uchel y mae Oasis ac Assia yn delio		
Y grŵp targed	Dadansoddiad yn ôl risg uchel/canolig/isel	Cyfanswm nifer y buddiolwyr
Merched	Uchel Canolig	1934 379
Dynion	Uchel Canolig	283 39
Cyfanswm		2639

Dengys y ffigur hwn gynnydd o 25% ar yr hyn a adroddwyd y llynedd.

Pobl sy'n adrodd eu bod wedi cael y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i gael mynediad at wasanaethau a chymorth a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus		
Y grŵp targed	Dadansoddiad yn ôl risg uchel/canolig/isel	Cyfanswm nifer y buddiolwyr
Merched	Uchel Canolig	968 376
Dynion	Uchel Canolig	211 87
CYFANSWM		1642

Dengys y ffigur hwn gynnydd o 27% ar yr hyn a adroddwyd y llynedd.

Yn ogystal â'u gwaith SARC ac ISVA, mae Llwybrau Newydd hefyd yn darparu gwasanaethau therapiwtig arbenigol i oedolion a phlant. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaeth lles trais rhywiol a gwasanaeth cwnsela trais rhywiol. Yn ystod 2021-2022, derbyniodd Llwybrau Newydd atgyfeiriadau am wasanaethau therapiwtig ar gyfer:

576 o oedolion.

121 o blant.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 34% ar 20-21. Er gwaethaf cynnydd mewn atgyfeiriadau, yn 2021-22 llwyddodd Llwybrau Newydd i sicrhau gostyngiad pellach o 30% yn y rhestrau aros am gwnsela trais rhywiol. Cyflawnwyd hyn drwy gynnal model arloesol o ddefnyddio cyllid tymor byr (prosiect Cwnsela Sesiynol a gefnogir gan eu Gwasanaeth Lles). Cefnogwyd y gweithgaredd hwn yng Nghwm Taf drwy gyllid VAWDASV Anghenion Ychwanegol.

Mae Gwasanaeth Cam-drin Domestig RhCT yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gyfer y rheiny sydd wedi profi cam-drin domestig yn ardaloedd RhCT; amlinellir isod peth o ddata gweithgaredd y gwasanaeth hwn.

Prosiect **SAFE**

Merched a atgyfeiriwyd	1533
Dynion a atgyfeiriwyd	20
Galw heibio dros y ffôn, y we ac ar-lein	387
Rhaglenni grŵp – ar-lein ac wyneb yn wyneb	655
Apwyntiadau cyfreithiol	86
Gwaith dilyn i fyny PPN risg arferol/canolig	1259
Pobl ifanc (18-24mlwydd oed)	35 o ferched 32 o ddynion
Rhondda fwy Diogel CYP cymorth un i un	33

Beth ydym wedi ei gyflawni? - Nod 5

Sicrhau bod gwasanaethau yn addas i'w diben a bod eu hansawdd wedi cael ei sicrhau.

O ran safonau craidd, mae'r sefyllfa'n aros yr un fath â'r llynedd; mae pob sefydliad VAWDASV yng Nghwm Taf Morgannwg naill ai wedi cyflawni safon graidd gydnabyddedig neu'n ymroi i weithio tuag at un.

Mewn perthynas â safonau trais rhywiol mae uwch aelodau tîm ISVA Llwybrau Newydd wedi cefnogi LimeCulture (Achredwr Safonau Ansawdd ISVA) i gryfhau safonau presennol ISVA ar gyfer plant a phobl ifanc yn seiliedig ar arfer yn Llwybrau Newydd.

Nid oes gan Gwm Taf Morgannwg set leol o ddangosyddion perfformiad, gan y teimlwyd ei bod yn addas disgwyl i'r dangosyddion cenedlaethol gael eu cyflwyno. Yn anffodus, mae'r pandemig wedi gohirio cyflwyno a gweithredu'r rhain a disgwylir iddynt gael eu hadolygu yn 22-23 i adlewyrchu'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Yn y flwyddyn ariannol hon, dechreuodd Grŵp Sicrhau Ansawdd MARAC weithredu set o gynigion a gynlluniwyd i greu mwy o effeithiolrwydd yn y broses MARAC. Roedd y gwaith hwn yn golygu bod angen gweithio ar draws Bwrdd Diogelu CTM, PDC Cwm Taf a PDC Pen-y-bont ar Ogwr gan fod gan y rhanbarth ddau MASH a dau MARAC. Mae'r gwaith wedi cael ei hwyluso gan y swyddi MARAC newydd a ariennir drwy'r grant refeniw VAWDASV ychwanegol. Mae'r cynllun gweithredu yn parhau ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Grŵp Sicrhau Ansawdd MARAC. Dylid cwblhau'r gwaith hwn yn 2022-23.

Cynllun Cyflawni VAWDASV CTM 2022-23

Drwy roi Cynllun Cyflawni VAWDASV 2021-22 ar waith a datblygu'r Strategaeth Genedlaethol newydd, mae sawl cam gweithredu newydd wedi dod i'r amlwg fydd yn cael eu cario ymlaen i Gynllun Cyflawni 2022-23. Mae hyn yn cynnwys y camau gweithredu canlynol:

- Adolygu a diweddarau Strategaeth VAWDASV CTM yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol newydd.
- Adolygu a diweddarau Cynllun Cyflawni VAWDASV CTM.
- Datblygu cofrestr risg VAWDASV i gyd-fynd â'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni.
- Cyflwyno'r DAPP sydd newydd ei gomisiynu - Sbarduno Newid.
- Monitro swyddi IDVA/ISVA newydd i ddysgu gwersi a rhannu arfer da.
- Datblygu a chyflwyno rhaglen o weithgarwch ymgyrchu yn seiliedig ar anghenion lleol a gofynion Strategaeth Genedlaethol VAWDASV.
- Sicrhau bod Llais y Goroeswyr yn cael ei glywed yn rhanbarth CTM a defnyddio'r llais hwnnw wrth gydgyhyrchu gwasanaethau.
- Parhau i ymgysylltu ag is-grŵp Ymgysylltu, Cyfranogi a Chyfathrebu Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg er mwyn cynyddu lledaeniad negeseuon ymgyrch VAWDASV.
- Adolygu a diweddarau'r mecanweithiau a ddefnyddir i gyflwyno Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol VAWDASV.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanbarthau eraill a'r PCCO i ddatblygu a darparu ystod o ymyriadau cyflawnwyr ac IDVA/ISVA.
- Gwerthuso gweithrediad y newidiadau y cytunwyd arnynt i broses MARAC.
- Monitro perfformiad y 4 canolfan dystiolaeth o bell o fewn CTM i ddeall eu heffaith ar ddioddefwyr ac ar y System Gyfiawnder Troseddol.
- Mabwysiadu a gweithredu Dangosyddion Perfformiad Craidd Cenedlaethol VAWDASV pan fyddant ar gael.

Atodiad A

Aelodaeth Partneriaeth Strategol a Chomisiynu Ranbarthol VAWDASV

Cynrychiolir y sefydliadau a ganlyn ar Bartneriaeth Strategol a Chomisiynu Ranbarthol VAWDASV Cwm Taf Morgannwg (cynrychiolir nifer o adrannau ar gyfer rhai sefydliadau).

Sefydliad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Heddlu De Cymru
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Llwybrau Newydd
Merthyr Tudful Mwy Diogel
BAWSO
Cymorth I Ferched RhCT
Llamau
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Atodiad B

Strwythur Llywodraethu Pen-y-bont ar Ogwr



Governance
Bridgend.docx

Strwythur Llywodraethu Cwm Taf



Cwm Taf
Governance structur

